# CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm**, **Dydd Mawrth 15 Hydref 2024**

**Yn bresennol:** Cynghorydd Celfyn Furlong – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Gordon Owen, William Victor Owen, Evan Wyn Robertson, Einir Thomas, Gareth Thomas a Dyfed Williams

**Hefyd yn bresennol:** Mai Owen – clerc / SAC

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng**.** Sharon Parry a Ken Taylor - Cynghorydd Sir.
2. **Datganiad o Ddiddordeb** –
Cyng. Gwilym O. Jones a Gordon Owen yn datgan diddordeb personol yn eitem 4.3 Neuadd y Pentref, Caergeiliog.

3. **Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol**
Derbyniwyd cofnodion 17 Medi 2024 fel rhai cywir (Cynnig Cyng. E. W. Thomas, eilydd Cyng. W.V Owen.)

4. **Materion yn codi o'r cofnodion.**

4.1 Chwarae Field: Roedd y clerc wedi cyfarfod ar y safle gyda Mr Craig Redmond, cytunwyd y byddai yn cael gwared a phob cangen farw o baramedr y parc. Roedd y ddwy fainc newydd eu gosod bellach.

4.2 Llwybrau troed: Cytunwyd gan fod cost torri'r llwybrau troed yn weddol isel y byddai'r clerc yn gofyn a fyddai'r contractwr presennol yn gwneud y gwaith eto'r tymor nesaf am bris gymharol. Os byddai, penderfynwyd peidio ag gofyn am brisiau eraill.

4.3 Neuadd y Pentref:
Roedd y ddwy ochr wedi cytuno ar y brydles ddrafft ond nid oedd y ddogfen derfynol wedi'i derbyn eto gan y cyfreithwyr.
Roedd y grant a sicrhawyd ar y cyd gyda'r ymddiriedolwyr wedi'i dalu i gyfrif y Cyngor Cymuned. Cafwyd dau ddyfynbris tebyg ar gyfer atgyweirio'r to, gosod tair ffenestr newydd a 'facia boards' a chwteri i gefn yr adeilad gan D. Thomas Building Contractors a Mike Jones Roofing Ltd.
Gan fod Mike Jones Roofing Ltd ar gael ar unwaith i wneud gwaith ar y to fe ofynwyd caniatâd gan yr Ymddiriedolwyr a fe wnaethwyd y gwaith hwnnw. Fe osodwyd facia boards ac ati ar y darn isaf o'r cefn hefyd. Yn gyffredinol, cafwyd bod y to mewn cyflwr da, ond byddai angen rhywfaint o waith pellach uwchben y brif fynedfa. Tynnwyd sawl ffotograff yn dangos craciau yn y rendr yn enwedig uwchben y ffenestri. Cytunwyd i edrych ar wneud y gwaith hwn fel rhan o waith trwsio pellach.
Cytunwyd hefyd i ofyn i Mike Jones Roofing osod tair ffenestr newydd a gorffen y gwaith o osod facia boards a chwteri newydd ar gefn yr adeilad.

Am £7,250 R.G. Hire oedd y rhataf o'r ddau ddyfynbris a gyfrifwyd am greu'r ramp newydd a gan eu bod wedi cadarnhau ei argaeledd i gwblhau'r gwaith cyn 30 Tachwedd 2024 gofynwyd iddynt wneud y gwaith.

Roedd Dŵr Cymru wedi cadarnhau y byddent yn barod i ddarparu cysylltiad dwr newydd at giât gefn y Neuadd am £1296.73. Cadarnhawyd fod hwn yn ddilys am 6 mis hyd at fis Mawrth 2025. Roedd RG Hire yn barod i wneud y gwaith cloddio at yr adeilad am amcan bris o £3,100. Y gobaith oedd i sgertio'r rhan fwyaf o'r graig ond gallai fod mwy o gost yna hefyd. Cytunwyd i weld a oedd posib cael help ariannol at wneud hyn.

Roedd Môn Fire wedi nodi'r angen am system larwm tân, byddai'r clerc yn gofyn i Gynghair Bro Llynnoedd am gyfraniad tuag at gost. Nodwyd hefyd nad oedd y drysau dwbl i fewn i'r neuadd yn ddrysau tân. Cytunwyd i edrych ar rain ar wahan.

4.4 Seddi gwag - doedd dim cais wedi bod am etholiad a rhoddwyd Rhybudd Cyfethol allan gyda dyddiad cau 24 Hydref 2024.

4.5 Unrhyw fater arall sy'n codi o'r cofnodion: dim

**5. Ceisiadau Cynllunio**

5.1 FPL/2024/155 Y Stablau, Caergeiliog.
Cais llawn am addasiadau ac estyniad i'r adeilad allanol ynghyd â'i drosi'n uned llety gwyliau hunanarlwyo - Dim gwrthwynebiad.

**6. Materion Ariannol**

Cyflwynodd yr SAC yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1.9.2024 i 30.9.2024 ynghyd â chysoniad banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.
Cyfrif cyfredol £45,074.65 Cyfrif deposit £4062.62

6.1 Taliadau: wedi'u nodi / cytuno.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Medi) | £339.24 | S. Wharton – torri glaswellt | £180 |
| Clear Council Insurance (Neuadd) | £672.78 | C. Torr (Gosod Meinciau) | £135 |
| Medwyn Owen (dau adolygiad ) | £97.60 | Mike Jones Roofing Ltd. | £1128 |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

**7. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.**

7.1 Cyfarfod Blynyddol Medrwn Môn - 5.30pm, dydd Iau 24 Hydref 2024 yn Ystafell Llynnon Room, Canolfan Fusnes Môn Llangefni LL77 7XA

7.2 Fforwm cynghorau tref a chymuned - cofnodion

7.3 Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad Medi 2024

7.4 Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2025-2026

7.5 Hyfforddiant - Llywodraeth Cymru lleodd am ddim

7.6 YML/FW: Siarter Cymuned ar y Cyd - diweddariad 2024

7.7 Newyddlen Rhifyn 7

7.8 Ymgynghoriad: Gwaith Craffu gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad erbyn 29 Tachwedd 2024**.**

7.9 Adolygiad Cyfyngiadau Cyflymder 20mya - Cytunwyd i ofyn i'r terfyn cyflymder gael ei gynyddu i 30mya o'r tu hwnt i gyffordd Naafi / Ysgol Gynradd tuag at Safle'r Awyrlu.

**8 Adroddiadau Aelodau - Dim**

**9. Cyfarfod nesaf - 19 Tachwedd 2024**

: